

## Byddwch angen:

- ★ Ilun o Ranjita i'w arddangos.
- ★ Iluniau neu glipiau o sioe dalent ar y teledu (dewisol).
- ★ cardiau sgorio (dewisol).

## Cyflwynydd:

- (Cyflwyniad) Fe allwch chi ddweud bod y Nadolig yn agosáu, nid wrth y cardiau sy'n cyrraedd trwy'r post neu'r addurniadau sydd i fyny ym mhob man, nid hyd yn oed wrth yr holl hysbysebion Nadoligaidd sydd ar y teledu, ond wrth y ffaith fod bron pob sianel deledu yn dangos rhyw fath o sioe dalent ar nos Sadwrn.
- [Siaradwch fwy am y sioeau talent sydd ymlaen ar hyn o bryd, ac os gallwch, dangos glipiau neu luniau ohonynt. Gallwch ddangos perfformiad fu ar un sioe ac wedyn gofyn i'r gynulleidfa roi sgôr i'r cystadleuydd. Neu fe allech gynnal pleidlais ar ba sioe sy'n ffefryn gan y gynulleidfa.]
- Boed chi'n mwynhau sioe ddawnsio, canu neu ryw dalent arall, mae un peth yn gyffredin amdanynt: maent yn chwilio am seren i ddisgleirio ac am y talentau sydd yn aml wedi eu cuddio mewn unigolion. Un o'r cystadleuwyr mwyaf poblogaidd yw'r rhai sy'n ymddangos yn allanol fel nad oes ganddynt dalent o gwbl - efallai eu bod yn ifanc iawn, yn swil, neu o gefndir annhebygol - sydd wedyn yn dangos i'r byd bod eu talent yn fawr iawn.
- Mae stori'r Nadolig yn llawn pobl oedd yn llawn o dalentau serennog - pobl o gefndiroedd annhebygol yr oedd Duw wedi eu dewis i fod yn rhan o stori geni Iesu. Pobl ddewisodd ymddiried yn Nuw a gwneud eu rhan pan oedd y chwydd wydr arnyn nhw. Un o'r bobl hyn oedd Mair ac fe ganodd hi gân hyd yn oed. (Edrychwch ar Luc 1.)
- Merch ifanc oedd Mair yn byw yn Nasareth, wedi ei dyweddïo i briodi Joseff. Roedd ffafwr Duw arni. Roedd Duw'n gwybod fod y ferch hon yn gadarn a gwydn, ac y byddai'n gwneud popeth yn ei gallu i ofalu a charu Iesu wrth iddo dyfu i fyny. Mae'n rhaid bod Mair yn seren i Dduw ei dewis i fod yn fam i Iesu ac fe alluogodd ei dewrder, dycnwch a'i defosiwn i neges Dduw ddod i mewn i'r byd.
- O amgylch y byd heddiw mae yna famau sydd yn meddu'r un talentau a roddodd Duw i Fair - cryfder a dycnwch. Mamau sy wedi gorfod gweithio'n galed i ofalu am eu plant.
- [Dangoswch lun Ranjita]
- Mamau fel Ranjita, sy'n byw yn India. Roedd teulu Ranjita'n dlawd iawn. Ers iddi fod yn naw oed, roedd rhaid iddi weithio mewn sefyllfa fudr, ddrewllyd am chydig iawn o gyflog. Mae Ranjita wedi tyfu bellach ac am i'w phlant gael bywyd gwell nag y cafodd y hi. Mae am ganfod cyfleoedd iddyn nhw fod yn bobl arbennig. Mae partner Cymorth Cristnogol yn India, ARUN, yn dod â merched at ei gilydd ac yn eu helpu i droi eu bywyd rownd.





Fe helpodd y grŵp Ranjita i ganfod ei hawliau, ceisio am grant y llywodraeth, a chychwyn bywyd newydd iddi ei hun. Trwy ddefnyddio doniau fel cryfder a dycnwch roddodd Duw iddi, prynodd beiriant gwnïo bedair blynedd yn ôl a chychwyn trwsio dillad. Ers hynny, mae bywyd Ranjita a'i phlant wedi newid er gwell. Maent yn gallu fforddio rhentu stafell ymhell o'r slymiau i fyw ynddi. Mae ei merch ieuengaf, Soniya, yn cael mynd i'r ysgol. Hi yw'r cyntaf o blant Ranjita i gael mynd i'r ysgol.

- Mae gan famau - fel Mair, mam Iesu, a Ranjita, mam Soniya - lawer o ddoniau roddodd Duw iddynt. Maent yn gryf, yn ddewr a galluog. Maent yn benderfynol

i wneud bywyd yn well iddynt eu hunain a'u teulu. Weithiau'r oll maent ei angen yw chydig o help i allu defnyddio'r talentau hynny. Y Nadolig hwn rydym am ichi feddwl am famau o amgylch y byd. Ac rydym am ddathlu'r ffordd y maent yn defnyddio eu talentau i'n helpu yn ein bywyd.

- [Eglurwch yr hyn a wnaiff eich eglwys i gefnogi Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.]
- [Gorffennwch gyda gweddi o ddiolch i Dduw am Fair, Ranjita a'r oedolion eraill sy'n serenu yn eich bywyd.]



## Gweithgareddau grŵp

- ★ Torrwch siapiau seren a chuddiwch y siapiau o amgylch y stafell er mwyn i'r grŵp ddod o hyd iddynt a'u rhoi gyda'i gilydd.
- ★ Gofynnwch i'r grŵp be dybient sy'n gwneud rhywun yn seren. Darllenwch fersiwn perthnasol o Luc 1 ac ysgrifennwch sut yr oedd Mair yn serenu yn y darn hwn. Edrychwch ar Gân Mair ac ysgrifennwch fersiwn modern gyda'ch gilydd. Siaradwch am ba fath o rinweddau serenog y byddai Duw am inni eu cael.
- ★ Rhowch seren efo'u henw i bawb yn y grŵp.

Pasiwch y sêr o amgylch a gofynnwch iddynt sgwennu pa rinweddau sydd gan bob person ar y seren berthnasol. Pan fo pawb wedi gorffen sgwennu, rhowch y seren berthnasol i bob unigolyn i'w chadw fel anogaeth, neu iddynt eu hongian ar y goeden fel addurn.

- ★ Gweddïwch dros eich gilydd, gan ofyn i Dduw ein gwneud yn ddewr wrth drystio Duw fel ag y gwnaeth Mair.
- ★ Argraffwch ein haddurn bocs rhodd (ar gael yn [caid.org.uk/christmas](http://caid.org.uk/christmas)). Gallwch ei addurno a'i lenwi gyda thrît neu nodyn i'ch mam neu

oedolion eraill sy'n gweithio'n galed i ofalu amdanoch.

- ★ Cynhaliwch sioe dalent a gwahoddwch rieni.
- ★ Gwnïwch fel Ranjita. Chwiliwch ar lein am syniadau syml neu am gitiau gwnïo ar gyfer plant. Beth am greu digon i'w gwerthu ar stondin grefftau tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol?



**Dyma  
Ranjita**